

YSGOL GYMRAEG MORNANT

PROSPECTWS



Dysgu a blodeuo drwy'r Gymraeg

Pennaeth/ Headteacher
Mrs Gwawr Closs-Griffiths

Ffordd Picton,
Picton, Penyffordd,
Treffynnon/Holywell,
Sir Y Fflint/Flintshire
CH8 9JQ



CONTACT US

01745 560433 

<https://ysgolgymraegmornant.cymru/>

office@mornant.flintshire/sch.uk

Croeso

Annwyl Riant/Gwarcheidwad,

Y mae'n braf gen i'ch croesawu a rhannu hefo chi ein llawlyfr ar gyfer Ysgol Gymraeg Mornant. Ein gobaith fel ysgol yw magu perthynas dda rhyngom ni yn yr ysgol a chi'r rhieni a'r palant a sicrhau ethos cyfeillgar a chartrefol wrth eich croesawu i deulu estynedig yr Ysgol.

Yn y llawlyfr cewch wybodaeth am yr Ysgol, ei diben a'i hamcanion, Ei chwricwlwm, polisïau ac amryw weithgareddau.

Ysgol o dan nawdd yr Awdurdod Lleol yw Mornant, sy'n darparu addysg gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd mae 65 o ddisgyblion o 3 hyd at 11 oed gennym. Hyderwn y bydd ein disgyblion yn gwbl ddwy ieitheg a rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Y mae'r Ysgol yn rhan o ffederasiwn Cwlwm ynghyd ag Ysgol Maes Garmon Yr Wyddgrug, ac o ganlyniad rydym yn falch o allu trosglwyddo disgyblion 11 oed yno i barhau gyda'u haddysg yn y Gymraeg. Mae hyn yn cael ei weithredu yn dda gan fod y ddwy ysgol yn cydweithio gyda pherthynas clos i ddatblygu hyder a phontio llyfn rhwng y cynradd ar uwchradd.



Dear Parent/Guardian,

Welcome.



I am pleased to welcome you, and share with you our handbook for Ysgol Gymraeg Mornant. Our hope as a school is to foster a good relationship between us at the school and you the parents and children and to ensure a friendly and homely ethos when welcoming you to the extended family of the School.

In the handbook you will find information about the School, its purpose and objectives, its curriculum, policies and various activities.

Mornant is a school under the auspices of the local Authority, which provides Welsh medium education. We currently have 65 pupils aged 3 to 11. We trust that our pupils will be completely bilingual and fluent in Welsh and English.

The School is part of the Cwlwm federation together with Ysgol Maes Garmon Yr Wyddgrug, and as a result we are proud to be able to transfer 11-year-old pupils there to continue with their education in Welsh. This is implemented well as the two schools work together with a close relationship to develop confidence and a smooth transition between primary and secondary.

Gweledigaeth

Vision

Dysgu a blodeuo drwy'r Gymraeg.



Learning and growing through Welsh.

- Adeiladu profiad dysgu hapus a hyderus drwy'r Gymraeg.
- Darparu lle cynnes sy'n meithrin pob plentyn.
 - Ehangu dyheadau ac annibyniaeth pob dysgwr.
- Meithrin balchder yn y gymuned, yr iaith a'r byd o'u cwmpas.



- Creating a joyful, caring and confident bilingual learning journey.
- Welcoming pupils into a homely setting that supports every child.
- Growing aspirations and independence for life.
 - Inspiring children to value their community, language and future.

Amcanion

- Darparu addysg gadarn, deg ac effeithiol.
 - Meithrin hyder, parch a hunanddisgyblaeth.
- Creu cymuned sy'n cydweithio er lles pawb.
 - Cefnogi datblygiad llawn pob disgybl.
- Annog talentau unigol a gwydnwch.
 - Hyder mewn dwy iaith bob dydd.
 - Sicrhau tegwch i bawb.
 - Meithrin balchder yn yr ysgol.

Aim

- Deliver balanced, high-quality education for all abilities.
 - Nurture belonging, confidence and positive behaviour.
 - Encourage cooperation and empathy across the school.
- Care for each learner's full development.
 - Help children build skills, talents and resilience.
 - Support confident communication in Welsh and English.
- Ensure fairness and equal chances for everyone.
- Inspire pride in the school community.

Meddylfryd Mornant - Mornant Values

Rydym yn cefnogi disgyblion i fod yn hyderus, caredig ac agored eu meddwl. Trwy greu lle dysgu diogel ac o ansawdd, rydym yn helpu plant i ddatblygu sgiliau bywyd a chyflawni eu potensial.

We guide pupils to be confident and open-minded. In a safe and caring setting, we help them develop life skills and achieve their best.

- **Bydd barchus, bydd caredig.**
- **Bydd frwdfrydig bob dydd.**
- **Cadwch y Gymraeg yn fyw.**

- **Be respectful, be kind.**
- **Be enthusiastic every day.**
- **Keep the Welsh language alive.**



Corff Llywodraethol

Governing Body

Cadeirydd	Mr. David Hýtch	Chair
Is-Gadeirydd	Cynghorydd Glyn Banks	Vice Chair
Is-Gadeirydd		Vice Chair
Pennaeth	Mrs. Bronwen Hughes	Head
Pennaeth	Mrs. Gwawr Closs-Griffiths	Head
Cynrychiolwr Athrawon	Mr. Sam Pritchard	Teacher Representative
Cynrychiolwr Athrawon		Teacher Representative
Cynrychiolwr Staff		Staff Representative
Cynrychiolwr Rhieni	Miss. Nina Smith	Parent Representative
Cynrychiolwr Rhieni	Mrs. Sarah Lachlann-Dean	Parent Representative
Cynrychiolwr Rhieni	Mrs. Fiona Lambrecht	Parent Representative
Cynrychiolwr Rhieni		Parent Representative
Llywodraethwr	Mrs. Sioned Wyn Davies	Governor
Llywodraethwr	Miss. Elena Charlton-Flemming	Governor
Llywodraethwr	Mrs. Michelle Brooks Jones	Governor
Llywodraethwr	Cynghorydd John Thompson	Governor
Llywodraethwr	Cynghorydd Sean Bibby	Governor
Cyllid	Mrs. Val Hughes	Finance
Clerc	Mr. Dafydd Watson	Clerk





Tîm ysgol Gymraeg Mornant



Dosbarthiadau 2026-27

Boreuau - Mornings

Dosbarth Clwyd - Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1

Dosbarth Dyfrdwy - Blwyddyn 2 a 3

Dosbarth Elwy - Blwyddyn 4,5 &6

Prynhawn - Afternoon

Dosbarth Dyfrdwy - Derbyn Blwyddyn 1 a 2

Dosbarth Elwy Blwyddyn 3,4,5 &6



Trefn y Dydd/Daily Routine	
Clwb Brecwast/Breakfast Club	8:00 – 8:45
Diwrnod yn Cychwyn/School Day Starts	8:55
Sesiwn 1/Session 1	9:30-10:30
Amser Chwarae/Play Time	10:30-10:45
Sesiwn 2/Session 2	10:50-12:00 10:50-12:10
Amser Cinio/Dinner Time	12:00-1:00 – CS/FPh 12:10-1:00 – CA2/KS2
Sesiwn 3/Session 3	1:00–2:00 – CA2/KS2 1:00-2:15 CS/FPh
Milltir y Dydd Amser Chwarae/Play Time	2:00 – 2:15 – CA2/KS2 2:15 – 2:30 – CS/FPh
Sesiwn 4/Session 4	2:15-3:15 – CA2/KS2 2:30-3:10 – CS/FPh
Diwedd y Dydd/ End of Day	3:10 – CS/FPh 3:15 – CA2/KS2



Derbyniadau/Admissions.

Dylai pob rhiant sy'n dymuno gwneud cais am fynediad i'w plentyn neu blant gysylltu a'r ysgol gan wneud cais i siarad gyda'r Pennaeth. Estynnwn groeso cynnes i chi ymweld a'r ysgol mwyn gofyn unrhyw gwestiynau ac i'r ysgol esbonio ymhellach y trefniadau derbyn, ac hefyd i roi cyfle i bawb edrych o gwmpas yr ysgol .

All parents who wish to apply for places for their children should first contact the school to ask for the Headteacher.

She will then make arrangements to meet the parents, answer any questions, further explain the arrangements and show parents around the school.



Dechrau Ysgol/Start of School

Cynhelir noson agored yn nhymor yr Haf i rieni'r plant hynny sy'n cael eu derbyn fis Medi i'r Dosbarth Meithrin. Gall blant gychwyn gyda ni yn yr ysgol (rhan amser yn unig) y mis Medi ar ol eu trydydd penblwydd h.y. bydd plant Meithrin Medi wedi cael eu geni rhwng Medi 1af 2023ac Awst 31 2024.

An Open Evening is held during the Summer term for parents of new pupils who are being admitted to the nursery the following September. Children can start at the school (part time only) in the September following their third birthday i.e. this September's Nursery pupils will have been born between September 1st 2023 and August 31st 2024

Ffurflenni Gwybodaeth/Information Forms

Rhoddir ffurflenni gwybodaeth i bob teulu. Mae'n bwysig iawn bod y ffurflenni yma'n cael eu llenwi, a'u diweddarau, yn arbennig y rhan sy'n rhoi rhif ffôn brys i ni fedru cysylltu â rhieni neu ofalwr mewn argyfwng. Os ydych yn newid cyfeiriad neu eich rhif ffôn gadewch i'r ysgol gael y manylion heb oedi os gwelwch yn dda.

Information forms are given to the parents of all children who enter the school. It is vitally important that these are completed so that the school has a record of personal details and contact numbers if the school needs to contact parents in an emergency. If there is a change of address or contact details, please notify the school as soon as possible.

Gwisg Ysgol - School uniform



Crys Polo Coch/Red polo shirt

Siwmpwr coch neu

llwyd/Red or grey jumper

Trwsus du/black trousers

Sgert du/Black skirt



Dillad Chwaraeon -PE Kit

Crys coch shorts du

Red t-shirt & black shorts

**Beth mae'ch plentyn yn dysgu yn yr ysgol o ddydd i ddydd?
Dewch o hyd i wybodaeth am ein pynciau cwricwlwm yma.**

- **Iechyd a Lles**
- **Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu**
- **Datblygiad Mathamategol**
- **Gwyddoniaeth a Thechnoleg**
- **Celfyddydau Mynegiannol**
- **Dyniaethau**



**What does your child learn at school each day?
Find information about our curriculum subjects here.**

- **Health and Well being**
- **Literacy and Communication Skills**
- **Mathematical Development**
- **Science and Technology**
- **Expressive Arts**
- **Humanities**



Cwricwlwm Ysgol

Mae rhaglenni gwaith yr ysgol yn anelu i gyflawni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Gweithredu'r ein rhaglenni gwaith yn bennaf drwy destunau trawsgwricwlaidd a thematig. Fe gynllunnir y rhaglenni gwaith gan yr athrawon fel tîm er mwyn sicrhau cydbwysedd, dilyniant a chynnydd. Mae llais y plentyn yn bwysig hefyd gyda phlant yn cynnig syniadau i'r thema hefyd. Mae'n dulliau dysgu yn cynnwys dysgu dosbarth, gwaith grŵp, dysgu tîm a dysgu unigolion. Byddwn yn anelu at gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys a fydd yn cynnwys gorchmynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen.

School Curriculum

The school's programmes of work aim to fulfil the requirements of the National Curriculum. These programmes are mainly cross-curricular or topic based. The programmes of work are planned by the class teacher through discussion with other teachers and with pupils to ensure pupil interest, balance, continuity and progression. Generally, we aim to integrate wide curriculum subjects. Work is planned by the whole staff to ensure balance, continuity and progression. Teaching methods include class teaching, group work, team teaching and individual tuition. Our aim is to provide a wide and balanced curriculum which will include the orders relating to the National Curriculum and the Foundation Phase.



Cyfnod Sylfaen- Foundation Phase

Yn ein hysgol ni mae'r Cyfnod Sylfaen yn cyfoethogi'r profiadau dysgu sy'n galluogi plant i fod yn greadigol, defnyddio'u dychymyg a chael hwyl wrth ddysgu. Mae'r plant yn cael mwy o gyfleoedd i archwilio'r byd o'u cwmpas a deall sut mae pethau'n gweithio drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol sy'n hwyl ac yn berthnasol i lefel eu datblygiad.

In our school the Foundation Phase is about enhancing the learning experiences which enable children to be creative, imaginative and to have fun whilst learning. Children have more opportunities to explore the world around them and to understand how things work through engaging in relevant practical activities which are fun and enjoyable and relevant to their developmental ages.



Chwe Maes Dysgu-Six Areas of Learning

Mae dysgu yn y Cyfnod Sylfaen yn seiliedig ar chwe Maes Dysgu sy'n ysgogi plant drwy chwarae strwythuredig a phrofiadau cyffrous. Rydym yn meithrin datblygiad personol, cymdeithasol, emosiynol, corfforol a deallusol pob plentyn, gan ddatblygu sgiliau TGCh, llythrennedd a rhifedd yn naturiol ar draws y cwricwlwm.

Learning in the Foundation Phase is built around six Areas of Learning, inspiring children through structured play and engaging experiences. We nurture each child's personal, social, emotional, physical and intellectual development, while naturally developing ICT, literacy and numeracy skills across the curriculum.



Dysgu yn y tu mewn a thu allan

Learning indoors and Outdoors

**Mae ein
hamgylcheddau
mewnol ac allanol yn
hwyl, yn ddiogel ac yn
ysgogol, gan hybu
chwilfrydedd naturiol
plant i archwilio a
dysgu drwy brofiadau
bywyd go iawn.
Anogir annibyniaeth,
gyda phwyslais cryf ar
ddefnyddio'r ardal
allanol fel adnodd
dysgu gwerthfawr.**

**Our indoor and outdoor
environments are fun,
safe, and stimulating,
encouraging children's
natural curiosity to
explore and learn
through real-life
experiences. We promote
independence, with a
strong emphasis on using
the outdoor area as a
valuable learning
resource.**



Cyfnod Allweddol 2 - Key Stage 2

Oedran - Ages 7-11

Ein nod yng Nghyfnod Allweddol 2 yw adeiladu ar sylfeini'r Cyfnod Sylfaen, gan feithrin ymdeimlad cryf o hunaniaeth bersonol a diwylliannol sy'n parchu eraill. Anogwn bob dysgwr i chwarae rhan lawn ym mywyd yr ysgol ac i elwa o gwricwlwm eang trwy amrywiaeth o brofiadau dysgu.

Our aim in Key Stage 2 is to build on the strong foundations of the Foundation Phase, developing a strong sense of personal and cultural identity while promoting respect for others. We encourage every learner to take a full role in school life and benefit from a broad curriculum through a range of engaging learning experiences.

Pynciau yng Nghyfnod Allweddol 2/ Subjects in Key Stage 2



Gyda Chwricwlwm i Gymru, mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu a mireinio ei chynnig, gan ganolbwyntio ar ddysgu trawsgwricwlaidd sy'n rhoi pwyslais ar lais y disgybl a datrys problemau ystyrlon.

With the Curriculum for Wales, the school continues to develop and refine its provision, focusing on cross-curricular learning that emphasises pupil voice and meaningful problem-solving.

Polisi Iaith-Language Policy

Gan ein bod yn ysgol Gymraeg benodedig, y Gymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol ac fe'i defnyddir ym mhob agwedd o'r cwricwlwm. Cymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith drwy'r ysgol, gyda chyflwyniad graddol o'r Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 2 i sicrhau bod disgyblion yn datblygu'n gwbl ddwyieithog erbyn 11 oed.

As a designated Welsh-medium school, Welsh is the official language of the school and is used across all aspects of the curriculum. Welsh is the main language of learning throughout the school, with English introduced gradually in Key Stage 2 to ensure pupils become fully bilingual by the age of 11.




Asesu- Assessment

Asesir cynnydd y plant yn barhaus gan athrawon drwy asesu ar gyfer dysgu, gyda'r camau nesaf yn seiliedig ar eu datblygiad hyd yma. Defnyddir y wybodaeth hon i gynllunio ac i roi adborth i rieni.

Ym mis Mai, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn sefyll profion cenedlaethol rhifedd, rhesymu a darllen (Cymraeg yn unig), tra bod disgyblion Blynnyddoedd 3-6 yn sefyll profion darllen Cymraeg a Saesneg.

Pupils' progress is continuously assessed by teachers through assessment for learning, with next steps based on their progress. This informs planning and supports feedback to parents. In May, Year 2 pupils take national tests in numeracy, reasoning and reading (Welsh only), while Years 3-6 sit Welsh and English reading tests.



Y Drefn ynglŷn â Chwynion-

Arrangements concerning complaints

Bydd y Pennaeth yn fodlon trafod unrhyw gwynion neu bryderon sydd gan rieni ynglŷn â pholisïau'r ysgol neu'r cwricwlwm.

Credwn yn gryf mewn gwranddo ar lais rhieni er mwyn ymateb yn brydlon ac yn adeiladol i unrhyw faterion sy'n codi. Felly, cysylltwch â'r ysgol cyn gynted â phosibl os oes gennych unrhyw bryder.

O dan Adran 23 Deddf Diwygio Addysg 1988, gall rhieni gyflwyno sylwadau ffurfiol am y cwricwlwm neu faterion cysylltiedig drwy ysgrifennu at yr ysgol, y Corff Llywodraethu drwy'r Cadeirydd, neu'r Awdurdod Addysg Lleol.

The Headteacher will be happy to discuss with parents any complaints or concerns arising from school policies or the curriculum. We strongly believe in listening to parents' views so that we can respond promptly and constructively to any issues raised. Please do not hesitate to contact the school if you have any concerns.

Under Section 23 of the Education Reform Act 1988, parents have the right to make formal representations regarding the curriculum or related matters. This can be done by writing to the school, the Governing Body (via the Chair of Governors at the school address), and/or the Local Education Authority.

Addysg Gorfforol- Physical Education

Disgwylir i'r plant gymryd rhan ym mhob agwedd o Addysg Gorfforol heblaw pan fo rhesymau meddygol dros beidio. Disgwylir i'r plant ddod a dillad newid ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol - siorts du a chrys t coch a phympiau. Mae croeso i'r plant gadw eu gwisg yn yr ysgol rhag ofn iddynt anghofio!

All children are expected to take part in Physical Education unless on medical grounds. Children are expected to bring suitable clothing - black shorts, red t shirt, red socks and pumps. They are welcome to keep their kit on their peg in school if they are prone to forgetting their kit!

Perthynas a Datblygiad Personol- Relationships and Personal Development

Mae Ysgol Gymraeg Mornant yn darparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n briodol i oedran y disgyblion ac yn seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol a lleol.

Yn Flynyddoedd 1-4, mae'r ffocws ar ddatblygu hunan-barch, perthnasoedd iach, diogelwch personol a defnyddio termau cywir am y corff.

Yn Flynyddoedd 5 a 6, mae disgyblion yn dysgu am newidiadau yn ystod glasoed, emosiynau, cenhedlu, beichiogrwydd a genedigaeth, ynghyd â phwysigrwydd cadw'n ddiogel.

Caiff rhieni eu hysbysu ymlaen llaw am sesiynau Blynnyddoedd 5 a 6 a chânt gyfle i weld yr adnoddau addysgu. Ceir rhagor o wybodaeth ym Mholisi ACR yr ysgol.

Ysgol Gymraeg Mornant provides age-appropriate Relationships and Sexuality Education (RSE) in line with local and national guidance.

In Years 1-4, pupils develop self-esteem, learn about healthy relationships, personal safety, and the correct names for parts of the body.

In Years 5 and 6, pupils learn about the physical and emotional changes of puberty, emotions and feelings, conception, pregnancy and birth, as well as the importance of personal safety.

Parents are informed in advance of the sessions delivered in Years 5 and 6 and have the opportunity to view the teaching resources. Further information is available in the school's RSE Policy.

Anghenion Dysgu Ychwanegol- Additional Learning Needs

Rydym yn ymrwymedig i ddarparu addysg gynhwysol o safon uchel i bob disgybl. Caiff disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol eu cefnogi drwy ddarpariaeth briodol a chymorth ychwanegol pan fo angen. Yn yr un modd, caiff disgyblion mwy abl a thalentog gyfleoedd i ymestyn eu dysgu drwy heriau ychwanegol a gweithgareddau cydweithio ar draws ein rhwydwaith o ysgolion. Byddwn yn sicrhau bod pob plentyn yn cael y cymorth a'r her sydd eu hangen i gyflawni eu potensial.

We are committed to providing a high-quality, inclusive education for all pupils. Learners with Additional Learning Needs (ALN) receive appropriate support and provision to help them achieve their full potential. Likewise, more able and talented pupils are given opportunities to extend their learning through additional challenge and enrichment activities, including collaboration across our network of schools. Our aim is to ensure that every child receives the support and challenge they need to succeed.

Polisi Cyfle Cyfartal- Equal Opportunities Policy

Mae polisi Cyfle Cyfartal yr ysgol yn nodi ymrwymiad Ysgol Gymraeg Mornant i drin pob unigolyn yn gyfartal beth bynnag bo'i gallu, cefndir, hil neu ryw. Ysgol barchus gynhwysol hapus ydy Ysgol Gymraeg Mornant.

The School's equal opportunities policy notes Ysgol Gymraeg Mornant commitment to treat each child equally, regardless of ability, background, race or sex. We are a happy inclusive respectful school.

Gofal Bugeiliol- Pastoral Care

Mae gofal bugeiliol y plant yn nwylo'r athrawon dosbarth ac mae pob ddau aelod o'r staff a'r Pennaeth yn gyfrifol am ddiogelwch plant yn yr ysgol. Mae staff bugeiliol ar gael i ymateb i anghenion emosiynol disgyblion a'u rhieni pan fydd angen

The pastoral care of the child in school is in the hands of the class teacher and there are two members of the school's staff, together with the Headteacher, responsible for child protection.



Parodrwydd ar gyfer Dysgu, Meddylfryd Mornant a Disgyblaeth/ Readiness for Learning, School Values and Discipline.

Disgwylir safonau uchel o ymddygiad yn Ysgol Mornant. Mae gwerthoedd a meddylfryd ein hysgol yn sail i'n polisi Parodrwydd ar gyfer Dysgu a Disgyblaeth. Mae copi o'r polisi ar gael yn y swyddfa. Anogwn rieni i gysylltu â ni'n brydlon os oes ganddynt unrhyw bryderon ynghylch disgyblaeth.

High standards of behaviour are expected at Ysgol Mornant. Our school values and mindset underpin our Readiness for Learning and Behaviour Policy. A copy of the policy is available from the school office. We encourage parents to contact us promptly if they have any concerns regarding behaviour or discipline.

Ymweliadau-Visits

Gofynnir i rieni lenwi ffurflen benodol ar gychwyn gyrfa'r plentyn yn yr ysgol. Mae hyn yn rhoi caniatâd i'r plentyn fynd ar ymweliadau cyfagos i gyfoethogi gwaith y dosbarth, neu ar gyfer digwyddiadau fel gwersi nofio neu chwaraeon cystadleuol. Ar gyfer ymweliadau pellach, mwy achlysurol neu ymweliadau preswyl, gofynnir am ganiatâd pellach gan rieni.

Parents are asked to complete the relevant form when the child starts school. This gives permission for the child to go on visits in the immediate vicinity of the school to complement classwork, or on regular visits e.g. swimming or competitive games. For visits which go further afield e.g. pantomimes or visits which involve overnight stays e.g. Glan Llyn, Cardiff and Llangrannog, parents will be asked to complete additional consent forms.



Codi Tâl am weithgareddau'r ysgol- Charging for School Activities

O bryd i'w gilydd yn ystod y flwyddyn ysgol fe wahoddir rhieni i wneud cyfraniadau i alluogi'r ysgol gynnal rhai gweithgareddau, e.e. gwersi nofio a gymnasteg, ymweliadau addysgol neu gynyrchiadau theatrig yn yr ysgol.

From time to time during the school year, parents may be invited to make voluntary contributions to enable the school to organise activities, to fulfil or enrich certain aspects of a child's education e.g. swimming lessons, educational visits or visits by theatre companies to school.

Ymwelwyr i'r Ysgol- Visitors to School

Yn aml iawn rydym yn gwahodd amrywiaeth o wahanol bobl i'r ysgol i weithio gyda'r plant

We often invite a variety of people into the school to share their experiences and to work with the children.

Cinio Ysgol- School Dinners

Mae cinio iach a maethlon, gan gynnwys opsiynau llysieuol, yn cael ei ddarparu bob dydd gan gegin Ysgol Gronant. Yn unol â chynllun Llywodraeth Cymru, mae pob disgybl ysgol gynradd yn gymwys i gael pryd ysgol am ddim. Gall disgyblion hefyd ddod â phegyn bwyd iach o'u cartref os dymunant.

Healthy and nutritious school meals, including vegetarian options, are provided daily by Ysgol Gronant kitchen. In line with the Welsh Government's Universal Primary Free School Meals programme, all primary school pupils are entitled to a free school meal. Pupils may also bring a healthy packed lunch from home if they wish.

Clwb Brecwast/ Ar ôl Ysgol- Breakfast club and after school club

Mae Clwb Brecwast ar agor i bob dysgwr rhwng 8.00yb a 8.45yb.

Mae gennym Glwb Ar Ôl Ysgol hefyd, sy'n rhedeg tan 5.00yh. Cysylltwch â'r ysgol am ragor o wybodaeth ynglŷn ag amseroedd, ffurflenni cofrestru a chostau.

The Breakfast Club is open to all pupils from 8:00am to 8:45am.

We also offer an After School Club, which runs until 5:00pm. Please contact the school for further information regarding opening times, registration forms and costs.

Diogelwch Plant- Safeguarding

Mae diogelwch a lles pob plentyn yn flaenoriaeth yn Ysgol Mornant. Mae pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant diogelu ac yn dilyn gweithdrefnau Cyngor Sir y Fflint. Os oes pryder am ddiogelwch neu les plentyn, caiff gwybodaeth ei rhannu gyda'r asiantaethau perthnasol yn unol â'r gyfraith. Y Pennaeth yw'r Person Diogelu Dynodedig, a'r Llywodraethwr Dynodedig dros Ddiogelu yw Mrs Sioned Davies.

The safety and wellbeing of every child is a priority at Ysgol Mornant. All staff receive safeguarding training and follow Flintshire County Council safeguarding procedures. Any concerns regarding a child's welfare will be dealt with promptly and shared with the appropriate agencies in line with legal requirements. The Headteacher is the Designated Safeguarding Person, and the Governor with responsibility for Safeguarding is Mrs Sioned Davies.

Absenoldebau'r Plant o'r Ysgol- Absences of Children from School

Gall absenoldebau o'r ysgol fod yn awdurdodedig neu'n anawdurdodedig. Cofnodir absenoldebau anawdurdodedig ar gofnod presenoldeb y disgybl. Er mwyn helpu i sicrhau bod absenoldebau eich plentyn yn cael eu hystyried yn awdurdodedig, nodwch y pwyntiau canlynol:

Dylid esbonio pob absenoldeb drwy nodyn, galwad ffôn neu neges i'r ysgol.

Ni ellir derbyn pob rheswm dros absenoldeb fel un awdurdodedig, er enghraifft mynd i siopa neu fynychu parti pen-blwydd.

Gall hwyrni parhaus gael ei gofnodi fel absenoldeb anawdurdodedig.

Os yw eich plentyn yn absennol oherwydd salwch heintus, dylid hysbysu'r ysgol cyn gynted â phosibl.

Os nad yw eich plentyn yn ddigon da i fynychu'r ysgol, ni ddylid ei anfon i'r ysgol. Pan fo presenoldeb disgybl yn peri pryder, bydd yr ysgol yn gweithio gyda'r teulu i wella'r sefyllfa ac, os oes angen, yn cyfeirio'r mater at Wasanaeth Lles Addysg yr Awdurdod Lleol.

Absences from school may be classified as either authorised or unauthorised. Unauthorised absences are recorded on a pupil's attendance record. To help ensure that your child's absence is considered authorised, please note the following: All absences should be explained by a note, telephone call, or message to the school.

Not all reasons for absence can be accepted as authorised, for example shopping trips or attending a birthday party.

Persistent lateness may be recorded as an unauthorised absence.

If your child is absent due to an infectious illness, the school should be informed as soon as possible.

If your child is unwell and not fit to attend school, they should not be sent to school.

Where a pupil's attendance gives cause for concern, the school will work with the family to improve attendance and, where necessary, may refer the matter to the Local Authority Education Welfare Service.



Cysylltiadau Rhieni- links with Parents

Bydd rhieni yn derbyn gwybodaeth reolaidd am weithgareddau'r ysgol drwy lythrau, gwefan yr ysgol, ap Seesaw a'r cylchlythyr misol. Gall rhieni wneud apwyntiad i drafod unrhyw fater sy'n ymwneud ag addysg eu plentyn drwy'r Swyddfa ar unrhyw adeg. Estynnir gwahoddiad ffurfiol i rieni ddod i drafod gwaith eu plant dair gwaith y flwyddyn. Rhoddir adroddiad ysgrifenedig ffurfiol ar gynnydd y plant ar ddiwedd y flwyddyn ysgol, ac anfonir targedau'r plant adref bob tymor.

Parents will receive regular information about school activities through letters sent home, the school website, the Seesaw app, and the monthly newsletter. Parents may arrange an appointment through the School Office at any time to discuss any matter relating to their child's education. Parents are also formally invited to discuss their children's work three times a year. A formal written report on each child's progress is provided at the end of the school year, and children's targets are sent home each term.

Cymdeithas Rhieni a Ffrindiau- Parents and Friends Association

Mae grŵp gweithgar iawn o rieni yn trefnu rhaglen o weithgareddau codi arian er mwyn galluogi'r ysgol i brynu'r adnoddau angenrheidiol. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r bobl hyn, ac mae croeso cynnes bob amser i rieni newydd ymuno â'r criw sy'n helpu i drefnu a chefnogi'r gweithgareddau.

A very active group of parents organises a programme of fundraising activities to enable the school to purchase the resources it needs. We are extremely grateful to these individuals, and a warm welcome is always extended to new parents who would like to join the team in helping to organise and support these activities.

